OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 Rhif 292 (Cy. 70)

# TRYDAN, CYMRU

## Rheoliadau Gweithfeydd Trydan (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) (Diwygio) (Cymru) 2019

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *18 Chwefror 2019* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *20 Chwefror 2019* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2019* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 36(8A), 36C(2) a (6) a 60 o Ddeddf Trydan 1989(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gweithfeydd Trydan (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) (Diwygio) (Cymru) 2019 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2019.

**Diwygio Rheoliadau Gweithfeydd Trydan (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 2017**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Gweithfeydd Trydan (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 2017(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3 (dehongli), yn y diffiniad o "relevant authority", ar ôl paragraff (b) mewnosoder—

"or

(c) in relation to an application for a section 36 consent or for a section 36 variation made (or to be made) to the Welsh Ministers, the Welsh Ministers;".

(3) Yn rheoliad 4(1)(c)(i), ar y dechrau, mewnosoder "save where the Welsh Ministers are the relevant authority,".

(4) Yn rheoliad 22(3), ar ôl "under regulation 4(6) of the Electricity Generating Stations (Variation of Consents) (England and Wales) Regulations 2013" mewnosoder ", or in a case where

(**1**) 1989 p. 29. Mewnosodwyd adran 36(8A) gan baragraff 47 o Atodlen 6 i Ddeddf Cymru 2017 (p. 4) ("Deddf 2017"). Mewnosodwyd adran 36C gan adran 20(1) a (2) o Ddeddf Twf a Seilwaith 2013 (p. 27) ac fe'i diwygiwyd gan adran 39(12) o Ddeddf 2017, a pharagraff 48 o Atodlen 6 iddi. Mae diwygiadau eraill i adran 36C a diwygiadau i adran 60 nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**2**) O.S. 2017/580, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

the Welsh Ministers are the relevant authority, under regulation 4(6) of the Electricity (Offshore Generating Stations) (Variation of Consents) (Wales) Regulations 2019,".

(5) Yn rheoliad 28 (gwefan geisiadau)—

(a) ym mharagraff (3), ar ôl "under regulation 5(2A) of the Electricity Generating Stations (Variation of Consents) (England and Wales) Regulations 2013" mewnosoder ", or in a case where the Welsh Ministers are the relevant authority, under regulation 5(3) of the Electricity (Offshore Generating Stations) (Variation of Consents) (Wales) Regulations 2019,";

(b) ym mharagraff (4), ar y diwedd, mewnosoder ", or in a case where the Welsh Ministers are the relevant authority, under regulation 5(2) of the Electricity (Offshore Generating Stations) (Variation of Consents) (Wales) Regulations 2019".

*Julie James*
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

18 Chwefror 2019

---

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Gweithfeydd Trydan (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 2017 ("Rheoliadau 2017").

Mae ceisiadau a wneir ar neu ar ôl 1 Ebrill 2019 o dan adrannau 36 a 36C o Ddeddf Trydan 1989 ("Deddf 1989") sy'n ymwneud â gorsafoedd cynhyrchu (neu orsafoedd cynhyrchu arfaethedig) yn nyfroedd Cymru sydd â chapasiti nad yw'n fwy na 350 megawat, neu a fydd â chapasiti nad yw'n fwy na hynny, i'w gwneud i Weinidogion Cymru. Ystyr "dyfroedd Cymru" yw hynny o ddyfroedd mewnol a moroedd tiriogaethol y Deyrnas Unedig sy'n gyfagos â Chymru a pharth Cymru. Mae i "parth Cymru" yr ystyr a roddir i "Welsh zone" yn adran 158 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio—

— y diffiniad o "relevant authority" i ddarparu mai Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod perthnasol pan wneir cais o dan adran 36 neu 36C (neu pan fo cais o'r fath i'w wneud) i Weinidogion Cymru;

— ystyr "consultation body"; a

— rheoliadau 22 a 28 o Reoliadau 2017 i fewnosod cyfeiriad at Reoliadau Trydan (Gorsafoedd Cynhyrchu Alltraeth) (Amrywio Cydsyniadau) (Cymru) 2019.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.